

MASNACH DEG



COMMUNITY & GLOBAL

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



COMMUNITY & GLOBAL

Masnach Deg

PAM?

Pan fyddwn ni'n prynu nwyddau, mae'r arian a wariwn yn cael ei rannu ar draws y gadwyn gyflenwi – o'r cynhyrchydd i'r pwynt talu. Hoffem i'r arian hwnnw gael ei rannu'n deg ar draws y gadwyn a dod â phris teg i ni hefyd. Hoffem wybod bod gan weithwyr amodau gweithio diogel a'u bod nhw'n cael eu trin yn dda.

Er mwyn cael rhywfaint o sicrwydd bod pawb yn cael eu trin yn deg, mae angen i ni ddibynnu ar yr asesiad a'r safonau y mae sefydliadau eraill yn eu gosod. Mor gynnar â'r 1950au roedd Oxfam UK yn defnyddio'r syniad o fasnach deg wrth werthu cynhyrchion a wnaed gan ffoaduriaid o China yn eu siopau.

Yn 1964 creodd Oxfam y Fair Trade Organisation, sef rhagflaenydd Sefydliad Masach Deg (*The Fairtrade Foundation*) a sefydlwyd yn 1992 mewn ymateb i apelïadau parhaol am degwch mewn masnach gan ffermwyr coffi graddfa fach ym Mecsico. Ers hynny, mae miloedd o gynhyrchion eraill wedi derbyn y nod ardystio Masnach Deg.

Mae eglwysi wedi bod ar flaen y gad o ran hyrwyddo cynhyrchion masnach deg am ddegawdau, gan wneud y cysylltiad rhwng masnach a thlodi ac ymrwymo i ddefnyddio nwyddau a fasnachwyd yn deg fel te, coffi a siwgr. Mae gwneud datganiad cyhoeddus i ddod yn 'Eglwys Masnach Deg' yn rhoi mwy o awdurdod i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y sgwrs am gyfiawnder i'r ffermwyr a'r gweithwyr yr ydym yn dibynnu arnynt.

SUT?

BETH YW 'MOESEGOL'?

Mae'r gair 'moesegol' [ethical] yn cael ei ddefnyddio erbyn hyn ar amrywiaeth fawr o gynhyrchion a gan nifer o gyflenwyr, i gyfeirio at amrywiaeth fawr o werthoedd ac egwyddorion moesol. Gallwn ei ddefnyddio i olygu unrhyw beth o 'eco-gyfeillgar' i 'wedi ailgychu', 'organig', 'fegan'; 'mewnforion wedi eu masnachu' ac 'wedi cynhyrchu'n lleol'.



COMMUNITY & GLOBAL

Masnach Deg

Nid oes diffiniad cyfreithiol i'w gael o 'moesegol' na 'chynaliadwy', felly chwiliwch am nwyddau sy'n defnyddio'r ymadroddion hyn, ond gofynnwch i'r cyflenwr beth maen nhw'n ei olygu.

PRYNU CYNHYRCHION

Mae rhai ardystiadau sy'n adnabyddus iawn. Wrth i chi chwilio am gynhyrchion rhyngwladol sy'n cael eu masnachu'n deg ac sy'n dod o ffynonellau moesegol, chwiliwch am y rhai sydd â'r 'nod' Masnach Deg neu 'sêl' Cynghrai y Goedwig Law.

Mae'r Sefydliad Masnach Deg yn disgrifio ei ardystiad fel cyfres o safonau sy'n cael eu cyflawni wrth gynhyrchu a danfon cynnyrch neu gynhwysyn. I ffermwyr a gweithwyr, mae Masnach Deg yn golygu hawliau i'r gweithwyr, amodau gwaith mwy diogel a chyflog tecach:

<https://www.fairtrade.org.uk/buying-fairtrade/>

Cafodd Cynghrai y Goedwig Law ei sefydlu yn UDA yn 1987 a'i nod oedd rhoi stop ar ddatgoedwigo fforestydd glaw. Ers hynny maen nhw wedi datblygu 'sêl' sy'n dangos bod y cynnyrch neu'r cynhwysyn a ardystiwyd wedi ei gynhyrchu gan ddefnyddio dulliau sy'n cefnogi'r tri chonglfaen cynaliadwyedd: cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol:

<https://www.rainforest-alliance.org/find-certified>

Mae 'Ethical Consumer' yn gydweithfa i aelodau sy'n ymchwilio arferion busnes a ffynonellau miloedd o gynhyrchion. Mae'n rhoi graddau i effaith pob un ar yr amgylchedd, ar gymdeithas, ar les anifeiliaid a pha mor dda ydyn nhw i'r Corff a'r Enaid. Mewn rhai achosion, efallai bod y cynnyrch yn dda mewn un categori ac yn wael mewn un arall, sy'n golygu bod angen i chi wneud dewis, er enghraifft rhwng hawliau dynol a phrofi ar anifeiliaid:

<https://www.ethicalconsumer.org/about-us>



COMMUNITY & GLOBAL

Masnach Deg

Dod yn Eglwys Fasnach Deg

Mae'r Sefydliad Masnach Deg yn gofyn i eglwysi fod yn rhan o'r ymgyrch a chofrestru â nhw, gan wneud ymrwymadau i

1. Ddefnyddio cynhyrchion Masnach Deg lle bo modd.
2. Ddathlu Pythefnos Masnach Deg (gwelwch isod).
3. Ymgysylltu â digwyddiadau Masnach Deg eraill a chysylltu â grwpiau cymunedol.

<https://www.fairtrade.org.uk/get-involved/in-your-community/faith-groups/fairtrade-churches/>

Anogwch ardal leol eich enwad chi i wneud cais am gydnabyddiaeth a hyrwyddo Masnach Deg. Mae hyn yn rhoi cryfder i'r ymgyrch Masnach Deg:

<https://www.fairtrade.org.uk/get-involved/in-your-community/faith-groups/fairtrade-denominational-areas/>

Gwnewch bobl yn fwy ymwybodol o gynhyrchion Masnach Deg drwy gymryd rhan yn y Pythefnos Masnach Deg bob gwanwyn, ac anogwch eich cyfeillion, cynulleidfa, busnesau ac elusennau i ymuno â chi. Mae'r Sefydliad yn darparu digon o syniadau ac adnoddau i'w wneud yn hawdd i eglwysi ymuno â'r digwyddiad:

<https://www.fairtrade.org.uk/get-involved/current-campaigns/fairtrade-fortnight/>

Mae'r adnoddau Pythefnos Masnach Deg yn cynnwys gwasanaeth addoli eciwmenaidd:

<https://www.fairtrade.org.uk/resources-library/current-campaigns/fairtrade-and-the-climate-crisis/ecumenical-service/>



COMMUNITY & GLOBAL

Masnach Deg

DEFNYDDIAU DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

Mae meini prawf ardystio gwahanol gan y Sefydliad Masnach Deg a Chynghrair y Goedwig Law felly efallai y byddwch eisiau darllen y manylion i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth mae'r marciau yn eu golygu (a'r hyn dydyn nhw ddim yn ei olygu):

<https://www.fairtrade.org.uk/what-is-fairtrade/>

<https://www.rainforest-alliance.org/faqs/what-does-rainforest-alliance-certified-mean>

Mae'r Sefydliad Masnach Deg yn rhoi llawer o syniadau am y ffordd y mae unigolion ac eglwysi'n gallu cymryd rhan mewn ymgyrchu a chefnogi eu gwaith:

<https://www.fairtrade.org.uk/get-involved/>

Gallwch ddarllen am y gwahaniaeth y mae'r Nod Masnach Deg yn ei wneud yma:

<https://www.fairtrade.org.uk/what-is-fairtrade/the-impact-of-our-work/the-difference-that-fairtrade-makes/>